**Y Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol**

**HSS-18-02 (p.8)**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad:** | **Dydd Mercher 23 Hydref 2002** |
| **Lleoliad:** | **Ystafelloedd Bwyllgora 3 & 4, Cynulliad Cenedlaethol Cymru** |
| **Teitl:** | **Mesur GIG (Cymru) Drafft - Materion sy'n codi o gyfarfod y Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ar 29 Mai 2002** |

**Diben**

1. Darparu'r wybodaeth yr oedd y Pwyllgor ei hangen ar ôl iddo ystyried Mesur GIG (Cymru) Drafft yn ei gyfarfod ar 29 Mai 2002 (HSS-12-02).

**Crynodeb**

2. Gofynnir i'r Pwyllgor nodi'r canlynol:

- Bwriad y Cynulliad yw y bydd gwasanaethau eiriolaeth annibynnol yn cael eu darparu gan Gynghorau Iechyd Cymuned (CIC) yng Nghymru. Nid yw hyn yn golygu na fydd modd i'r CIC alw ar gyrff eraill i ddarparu rhai gwasanaethau eiriolaeth arbenigol i gleifion.

- O ran y mater o ymgynghori a godwyd gan David Melding yng Ngwelliant 17 i'r Mesur GIG (Cymru) Drafft, byddai'n fwy priodol ei gynnwys mewn Rheoliadau yn hytrach nag yn y Mesur.

**Amseru**

3. Mae'r Pwyllgor wedi gofyn am y papur hwn ar gyfer y cyfarfod hwn.

**Cefndir**

4. Yng Nghyfarfod y Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol a gynhaliwyd ar 29 Mai bu'r Pwyllgor yn ystyried Mesur GIG (Cymru) Drafft. Codwyd dau fater lle yr oedd angen mwy o wybodaeth ar y Pwyllgor.

i) Gofynnodd y Pwyllgor am eglurhad ar y cwestiwn ai CIC yn unig allai ddarparu'r gweithgareddau a restrwyd yn Atodiad 19A i Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol 1977 (h.y. gwasanaethau eiriolaeth).

ii) Gwelliant 17, wedi'i gyflwyno gan David Melding:

*Atodlen 1. Yn Atodlen newydd 7A i Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol 1977:*

*Paragraff 5 – yn union ar ôl ychwanegu'r paragraff hwn:*

*"5. Cyn y gellir gwneud newid sylweddol i Gynllun Gwasanaeth Iechyd Gwladol lleol mewn perthynas â dosbarth y Cyngor, dylai'r Cyngor hwnnw -*

*a) ymgynghori ag aelodau o'r cyhoedd y gallai'r newid effeithio arnynt; a*

*b) sicrhau y caiff corff a sefydlwyd o dan baragraff 4 o'r Atodlen hon ei hysbysu o newid o'r fath."*

Derbyniodd y Pwyllgor y gwelliant mewn egwyddor ond gofynnodd am ddrafftio geiriad diwygiedig a'i ddosbarthu i aelodau.

**Materion i'w Hystyried**

*Gwasanaethau Eiriolaeth:*

5. Cafodd Adran 19A y Ddeddf Gwasanaeth Iechyd Gwladol 1977 ei chynnwys gan adran 12 Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2001, ond nid yw wedi dod i rym eto. Mae'n gosod dyletswydd ar yr Ysgrifennydd Gwladol i drefnu bod yr holl ofynion rhesymol i ddarparu gwasanaethau eiriolaeth annibynnol ar gyfer pobl sydd am wneud cwyn yn erbyn y GIG yn cael eu bodloni. Mae'r ddyletswydd hon yn cael ei datganoli i'r Cynulliad mewn perthynas â Chymru. Y bwriad yw bod CIC yn darparu'r gwasanaethau hyn yng Nghymru. Felly, mae Atodlen 1, paragraff 2(g) Mesur GIG (Cymru) drafft yn rhoi'r pwer i'r Cynulliad, drwy Reoliad, drefnu i'r CIC ddarparu gwasanaethau eiriolaeth cwynion. Nid oes unrhyw bwer i roi'r ddyletswydd honno ar ysgwyddau unrhyw gorff arall.

6. Bwriedir dod ag Adran 12 o Ddeddf Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol 2001 i rym yng Nghymru ar yr un pryd â'r Rheoliadau sy'n gosod y ddyletswydd o ddarparu gwasanaethau eiriolaeth cwynion ar y CIC (yn amodol ar wneud Mesur GIG (Cymru) yn ddeddf).

7. Cydnabyddir, fodd bynnag, na fydd y CIC yn gallu darparu'r ystod lawn o wasanaethau eiriolaeth

arbenigol wrth ddefnyddio'u hadnoddau eu hunain. Mae'n bosibl felly y bydd y CIC neu ffederasiynau CIC yn gallu hwyluso'r gwaith o ddarparu gwasanaethau i gleifion, gan alw ar wasanaethau arbenigol o'r sector gwirfoddol neu o sectorau eraill, pan fo angen, i helpu'r CIC i gyflawni'u dyletswyddau.

*Gwelliant 17*

8. Yng ngoleuni trafodaethau cynharach yng nghyfarfod y Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ar 29 Mai, roedd David Melding wedi cynnig tynnu'r gwelliant hwn yn ôl, ond addawodd y Gweinidog y byddai'n ystyried p'un a fyddai geiriad diwygiedig yn ateb ei bryderon.

9. Bu'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn ystyried i ba raddau y dylid cynnwys manylion o'r math hwn yn y Mesur wrth iddi baratoi i fynd gerbron y Pwyllgor Dethol ar Faterion Cymreig ar 25 Mehefin. Cododd y Pwyllgor hwnnw y mater ynghylch ymgynghori. Ar ôl ystyried y mater ymhellach, dywedodd y Gweinidog ei bod o'r farn y byddai'n fwy priodol pennu trefniadau manwl ynghylch sut i gynnal ymgynghoriad mewn Rheoliadau yn hytrach nag yn y Mesur.

10. Byddai'r casgliad cyffredinol hwn yn berthnasol i welliant arfaethedig Mr Melding. Byddai'n llawer mwy priodol cynnwys yr holl fanylion y byddai eu hangen i egluro'i ddiben a'i gwmpas mewn Rheoliadau. Yn fwy na hynny, gan fod Rheoliadau arfaethedig yn cael eu cyhoeddi ar ffurf drafft ar gyfer ymgynghori arnynt bydd y Cynulliad yn gallu ystyried sylwadau a fynegwyd gan fudd-ddeiliaid cyn penderfynu'n derfynol ar y Rheoliadau.

11. Ysgrifennodd y Gweinidog at Gadeirydd y Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ar 12 Gorffennaf er mwyn rhoi eglurhad ar y materion hyn.

**Cydymffurfio**
12. Nid oes unrhyw faterion cydymffurfio.

**Themâu trawsbynciol**
13. Nid oes unrhyw themâu trawsbynciol.

**Camau i'w cymryd gan y Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol**
14. Gofynnir i'r Pwyllgor nodi'r papur hwn.

**Jane Hutt**
**Y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol**

**Pwyntiau Cyswllt**
Bob Oliver, 029 2082 1054
Steve Davies, 029 8082 1158
Ellen Neal, 029 2082 6971.